

# PORTH

## *All-Lein*

O dawelwch dy wely, y noson  
ddinesig sy'n mynnu  
nad oes cusan i'w rhannu'n  
y gwyll diflas, oera' sy...

...botwm. Ti'n gwibio eto ar unwaith,  
yn rhyw hanner effro,  
o dir yr hwyr yn dy dro.

Rhuthr i'r porth, i'r apiau hyn, sianeli  
sy'n hawlio pob mymryn  
o dy fod. Fe ei wedyn

o'r porth â naid, i'r parthau'n ôl a dal  
ym mhob dolen arferol  
yn y gadwyn ddigidol.

Glanio. Dotio ar statws hwn-a-hon  
â'u henwau'n dy storws.  
Mwynhau proffiliau, a ffws

dy seithfed nef, lle hefyd na elli  
di golli'r un funud  
sydd o bwys (sa'i ddiwedd byd)!

Eisiau'r holl hanes a'r lluniau, eisiau  
can dwsin o ffrindiau  
i ledu dy sylwadau.

Eisiau drwy'r nos. Di-droi'n-ôl yw'r eisiau  
direswm tragwyddol.  
Y mae'r eisiau mor oesol

ar y we. Mae'n fan real i tithau.  
Nid taith artiffisial  
ydyw'r un o'th bedair wal

drwy'r ffôn, ond lôn a ddilyni go iawn,  
ac yna fe gei-di  
yn y diffyg, dy hoffi...

...ac oherwydd ei bod hi yn gwawrio  
yn ara deg, ti'n chwerwi a digio.  
Dannod dy orchwyl ar sgrîn noswyllo  
a'r we hefyd (mae'r ceir wrthi'n refio  
eu hatgasedd). Ei ati i geisio  
cwsgr am ennyd. Aiff ennyd, a ffonio  
mae cyflogwr. Yn siŵr, oriau sero!  
Rhyw ddiwrnod solet mewn bwyty eto  
â'i geiniogau'n y gegin o nagio!  
Ond, os sifft, ti'm yn dewis ei hwfftio;  
rhent a godir, a daw rhent i gydio.  
I'r gawod oer, o godi, a herio'r  
dydd wyt ar ei strydoedd o. Bore bach,  
a bore afiach, real, yn brifo...

...brysio. Deisio drwy'r stesion.  
Eisiau dy ffics a dy ffôn.  
Naid i drên, a throi yn driw  
wna heddiw'n llawn newyddion.

O'r porth i'r heip. Rhithwir yw  
ei ddweud. Disylwedd ydyw.  
Straeon 'o bwys' drwy ein bod  
yn ddiwaelod, yn ddilyw

fel y llif hys-bys di-baid;  
eitemau fesul tamaid  
i'th gymell, er gwell, er gwaeth  
â'u lluniaeth. Colli enaid.

Llwytho. Swatio mewn sedd.  
Aros am holl gynddaredd  
dwli maith y *Daily Mail*,  
doed â ddêl, 'da'i ddialedd.

I'th ran daw propaganda  
(sen ddi-hid a dim sy'n dda)  
gan regi gwae hanner gwir  
i lenwi'r ffrwd greulona',  
ffrwd a rydd ei phryder hi'n  
ddilyniant o ddolenni.  
Ti'n amau, dechrau dychryn  
gyda hyn, yn gadwyni

anesmwyth, am mai pwytho  
wna hithau'r we yn ei thro  
yn dawel, anwel o hyd,  
un ennyd i'th wenwyno...

...trên o ddistawrwydd, trên yn ddi-stori  
reda hyd lein sy'n frwd â'i dolenni  
reit at ei diwedd. Yno'r eisteddi  
eto'n niwlog (fel mwg mewn twneli)  
â phawb arall sy'n or-hoff o bori'n  
ddyrys ac awchus. Rhai ar eu llechi,  
ond yr un rhethreg! Dim i'w fynegi!  
Nid oes eiliad i'th ysgwyd i sylwi'n  
nes ar y ddinas a rydd ohoni  
wawr o freuddwydion, a'r hawl i lonni,  
ond ar rwydwaith y rhyngrwyd yr ei-di,  
llinell gylchol heb neb i'w rheoli,  
a daw stop i'th dywys di bant o'r trên  
o bob dalen, i fyd sy'n bodoli...

...ac ei'n swrth i'r gegin sydd yn aros  
i'n herio o'r newydd.  
Yn ddigalon, aflonydd,  
ti'n erfyn am derfyn dydd...

...lifo'n araf mae'r afon  
o dan olau lampau'r lân.  
Fel yr afon heno'n ôl,  
yn araf o arferol,  
ti'n cerdded rhwng y rhedyn,  
olion chŵd, a glan o chwyn.

Dy ddyrnu wnaeth dy ddiwrnod  
heb ei hoe. Y tryma'n bod.  
Heibio'r ei dan bont o'r bron,  
dan awyr sribed neon  
yn ddig. At strydoedd agos.  
O fan hyn at dyrfa nos.

Tra bo ffôn a chlustffonau,  
rwyd ti eto'n ceisio cau  
yr hewlydd rhag realaeth  
sŵn y gwyll a'r noson gaeth,  
ag alawon sy'n cronni  
eu dawns ar dy apiau di.

Caneuon. Traciau newydd.  
Galw'r *dub* i giliau'r dydd.  
Hawlio'r bît a theimlo'r bas  
amdanat, ac mae dinas  
yn y diwn a'r seindonnau  
ambell waith, yn ymbellhau...

...ac â heno lond synau amgenach  
a phob curiad yn guriad rhagorach,  
ti'n diflannu o rygnu a grwgnach  
y stryd am ennyd, ar gywair mwynach,  
celu eto o'i gafael caletach  
ac yn dewis osgoi haenau düach  
realaeth nos mewn conglau agosach.  
Eiliadau dall wrth ali dywyllach  
guddia'r nodwydd wna bywyd yn rhwyddach  
i rywun eiddil â'i hwyr anoddach.  
Heibio'r hen wreigan a'i champau gwannach  
yn ei brifo, 'chos cymaint yn brafiach  
yw cloi'r byd am funud fach rhag pob briw,  
a mynnu heddiw: Mae hynny'n hawddach...

...drwy'r danffordd. Siwrnai'n corddi.  
At hewl. I'r siop boteli  
o raid. Potelaid i ti!

At y bloc o fflatiau blin  
ym mhen pellaf y pafin  
i afael dy gynefin.

Allwedd. Lle fel bedd, heb os.  
Lle'n oer, a'r gwyll yn aros.  
Newid wnei i ddillad nos.

Awr am awr cei chwarae mig  
â thi dy hun. Ti'n unig  
a'n isel o ynysig.

O ddechrau yfed, wedyn,  
daw i odre dy wydryn,  
a daw â'u hollt, gyda hyn,

hen rithiau carwriaethol  
ddoe yn awr na dreiddia'n ôl  
i dy feddiant lled-feddwol,

a charet ddêt, yn ddi-au!  
Ar-lein. Mae mur o luniau  
yno'n wib o wynebau'n

weledol i'w cofleidio;  
eto'r un a fydd mewn tro  
yn go siŵr o'th gysuro.

Golau ffôn ac oglau fflag  
yn boenus, a beth bynnag,  
at wely hwyr. Potel wag...

...ochain cyn dringo ger dy glustogau.  
Yna rhyw gelu'n yr hanner golau.  
Troi'n dy unfan mewn llif o wefannau  
â'th feddalwedd yn trwytho'th feddyliau  
am yr ennyd cyn gostwng amrannau.  
Awr o dawelwch, ond drwy dy waliau,  
aros heno'n un corws o synau  
mae rhegfa'r ddinas. Dan dy gynfasau

eto i ymyl porth o fotymau.  
l'r seiberofod! Sêr o hashnodau'n  
pefrio i'w gwirio (er fod y geiriau'n  
heidio â brathiad o'u bwrw, weithiau);  
swyn apiau'r hwyr sy'n parhau fel gwreichion  
i dy wefrio'n dy lecyn diwifrau...

...i'th hafan, byth a hefyd y doi-di  
o adwy dy fywyd,  
a dod i fan rhwng dau fyd:

Troi o alwad rheolau dy einioes  
undonog, ddifaddau,  
ei sŵn a'i chonfensiynau

i faes, lle cei efo hyn hunaniaeth  
wahanol, ddiodyn.  
Ar y we, rwyf ti'n rhywun.

Anhunedd; ond er hynny, wrth y porth,  
pa ots sydd am gysgu?  
O dawelwch dy wely,

o dir yr hwyr yn dy dro, ar unwaith,  
yn rhyw hanner effro,  
botwm. Ti'n gwibio eto...

**ARON PRITCHARD**